surprising—that in its first year of operation, and continuing, there is a range of issues where improvements can and should be made. I have, obviously, been in discussion with John Clarke, as accounting officer, and his financial colleagues on what they are doing. For example, there are detailed guidance notes available to sponsors on the completion of their claim forms so that, where sponsors have made errors in their claim forms, they are told about those so that they can learn from those mistakes. WEFO maintains regular contact with sponsors, gives presentations and so on to them, and meets them to assist them in the completion of their forms and is planning, this year, to hold workshops to familiarise sponsors with the claiming arrangements. So, there is a lot of activity that WEFO is undertaking, which is a recognition that the systems that it is operating are not operating, at the moment, as well as they should be. However, going back to what I was saying earlier, for this particular year it was operating sufficiently effectively for the Auditor General to give his assurance.

[26] Dafydd Wigley: Do you accept the significance of this—if we found that there had to be clawback, the alarm bells that that might set ringing among the European authorities, which have a valid interest in this money, and if people

cydnabod—ac nid yw'n syndod llwyr—fod yn ei flwyddyn weithredu gyntaf, ac yn parhau felly, ystod o faterion lle gellid ac y dylid gwneud gwelliannau. Yr wyf, yn amlwg, wedi cael trafodaethau gyda John Clarke, fel y swyddog cyfrifo, a'i gydweithwyr ariannol ynglŷn â'r hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, mae canllawiau manwl ar gael i noddwyr lenwi eu ffurflenni cais fel bod noddwyr, lle gwnaethant gamgymeriadau yn eu ffurflenni hawlio, yn cael gwybod am y rheini iddynt gael dysgu o'u camgymeriadau. Mae WEFO yn cynnal cysylltiad rheolaidd â noddwyr, yn rhoi cyflwyniadau ac ati iddynt, ac yn cwrdd â nhw i'w cynorthwyo i lenwi eu ffurflenni ac, eleni, mae'n bwriadu cynnal gweithdai er mwyn i noddwyr gael ymgyfarwyddo â'r trefniadau hawlio. Felly, mae WEFO yn cynnal llawer o weithgareddau, sy'n gydnabyddiaeth nad yw'r systemau sydd ganddi yn gweithio gystal ag y dylent ar hyn o bryd. Fodd bynnag, a mynd yn ôl i'r hyn yr oeddwn yn ei ddweud yn gynharach, ar gyfer y flwyddyn neilltuol hon yr oedd yn gweithredu'n ddigon effeithiol i'r Archwilydd Cyffredinol roi ei sicrwydd.

[26] Dafydd Wigley: Ydych chi'n derbyn arwyddocâd hyn—pe baem yn canfod bod adfachu yn anochel, y clychau rhybudd y gallai hynny beri iddynt seinio ymysg yr awdurdodau Ewropeaidd, sydd â buddiant dilys yn yr arian hwn, a phe bai pobl yn

started to come over from Brussels to claw around, then goodness knows what the implications could be. It is incumbent on us all to ensure that there is no question of this going off the rails. I assume that you will pass this message on to those people. Even if they are not directly answerable, that message must be taken on board.

Mr Shortridge: Absolutely. That is why the audit process and the certification process before payments are made are so important.

[27] Dafydd Wigley: Yes, and that brings me on to the letter that we received yesterday from Mr Richards on placing a temporary embargo on interim audit certificates for European social fund grants. Obviously, the placing of any embargo and the reduction in the frequency of audits could have a bearing on where we are going because we would not know as quickly as we otherwise would when things are going off the rails. Turning to the letter that Mr Richards submitted to the Committee clerk earlier this week, I am somewhat concerned that the moratorium has been placed on the requirement for interim audit certificates to be submitted to WEFO in support of claims for the European social fund grant. Can you explain to the Committee the rationale for this decision taking place?

Mr Shortridge: This was a decision essentially taken by the Department for

dechrau dod draw o Frwsel i grafu o gwmpas, yna pwy a wŷyr oblygiadau posibl hynny. Mae'n rheidrwydd ar bawb ohonom i sicrhau na fydd hyn yn mynd ar chwâl. Rhagdybiaf y byddwch yn trosglwyddo'r neges hwn ymlaen i'r bobl hynny. Hyd yn oed os nad ydynt yn uniongyrchol atebol, rhaid cymryd y neges honno o ddifrif.

Mr Shortridge: Yn bendant. Dyna pam y mae'r broses archwilio a'r broses ddilysu mor bwysig cyn y gwneir taliadau.

[27] Dafydd Wigley: Ie, ac mae hynny'n dod â mi at y llythyr a dderbyniasom ddoe oddi wrth Mr Richards am roi embargo dros dro ar dystysgrifau archwilio interim i grantiau o dan gronfa gymdeithasol Ewrop. Yn amlwg, gallai pennu unrhyw embargo a lleihau amllder yr archwiliadau effeithio ar ein hynt ni oherwydd ni fyddem yn gwybod cyn gyflymed ag y byddem fel arall pan fo pethau'n mynd ar chwâl. I droi at y llythyr a roddodd Mr Richards i glerc y Pwyllgor yn gynharach yr wythnos hon, yr wyf yn bryderus braidd fod y moratoriwm wedi'i roi ar y gofyniad i dystysgrifau archwilio interim gael eu cyflwyno i WEFO i ategu hawliadau am grantiau o dan gronfa gymdeithasol Ewrop. Allwch chi egluro'r rhesymeg sydd wrth wraidd y penderfyniad hwn i'r Pwyllgor?

Mr Shortridge: Penderfyniad a wnaed gan yr Adran Addysg a Sgiliau mewn perthynas â

Education and Skills in relation to England. Given that ESF payments in Wales are clearly all part of the wider scheme, we needed to think very carefully about whether we should follow England or continue to require the annual certificates in Wales. Essentially, the problems that we face in Wales are the same as those in England. Those problems are that the auditors are concerned that the guidance on eligibility and categorisation of expenditure—which they are having to apply in order to give the certificates—is not sufficiently clear to enable the certificates to be issued.

I think that probably what underlies this is the growing concern among accountancy firms about their professional liability, and not wanting to sign up to things that involve an exercise of judgment that could prove to be wrong in the future. So, essentially, what has been done is to withdraw what is a new requirement while this whole issue can be looked at in consultation with the accountancy profession and the Audit Commission, so that a new set of arrangements can be put in place, which are satisfactory both to Government—and by Government, I mean the Assembly—and also to the auditors on the ground, who have to do the work. There was also a concern that, if nothing was done, it could interrupt the cash flow to sponsors in the interim, which was not regarded as being a satisfactory or appropriate thing to do.

The point I want to emphasise is that the level of assurance that we are now having to revert to is no different from the level of

Lloegr oedd hwn yn ei hanfod. O gofio bod taliadau ESF yng Nghymru wrth reswm i gyd yn rhan o'r cynllun ehangach, yr oedd angen inni feddwl yn ofalus iawn pa un y dylem ddilyn Lloegr neu barhau i fynnu'r tystysgrifau blynyddol yng Nghymru. Yn eu hanfod, yr un yw'r problemau a wynebwn yng Nghymru â'r rheini yn Lloegr. Y problemau hynny yw bod yr archwilwyr yn pryderu nad yw'r canllawiau ar wariant cymwys a chategoreiddio gwariant—y mae'n rhaid iddynt eu defnyddio er mwyn rhoi'r tystysgrifau—yn ddigon clir fel bod modd rhyddhau'r tystysgrifau.

Yr wyf yn credu mai'r hyn sydd wrth wraidd hyn yn ôl pob tebyg yw'r pryder cynyddol ymysg cwmnïau cyfrifeg ynglŷn â'u hatebolrwydd proffesiynol, ac nad ydynt am fod yn rhan o rywbeth sy'n golygu llunio barn a allai fod yn anghywir yn y dyfodol. Felly, yn ei hanfod, yr hyn a wnaed yw tynnu gofyniad sydd yn ofyniad newydd yn ôl hyd nes y gellir edrych ar yr holl fater mewn ymgynghoriad â'r proffesiwn cyfrifeg a'r Comisiwn Archwilio, fel y gellir sefydlu set newydd o drefniadau sy'n foddhaol i'r Llywodraeth—ac wrth Llywodraeth, yr wyf yn golygu'r Cynulliad—a hefyd i'r archwilwyr yn y maes, sy'n gorfod gwneud y gwaith. Yr oedd pryder hefyd, pe na châi dim ei wneud, y byddai'n amharu ar y llif arian i noddwyr yn y cyfamser, ac ni themlir bod hynny'n beth boddhaol na phriodol i'w wneud.

Y pwynt yr wyf am ei bwysleisio yw nad yw'r lefel sicrwydd yr ydym yn gorfod dychwelyd ati yn awr yn wahanol o gwbl i'r

assurance that was thought to be appropriate in, say, 1999. As far as I understand it, these interim arrangements are fully compliant with Europe's own regulations and requirements.

[28] **Dafydd Wigley:** Well, they may well be. The question is what is best practice for us. Alison, would you like to come in?

[29] **Alison Halford:** Thank you very much, Chair. Mr Shortridge, I have a few questions to ask because a member of the Committee is missing. I have not volunteered to ask these questions but—

[30] **Dafydd Wigley:** Very kindly, you have responded to the situation.

[31] **Alison Halford:** I am grateful for that, Chair. Before I actually get on to my tranche of questions, Mr Shortridge, I am always perplexed by the enormity of your role and the huge level of accountability that you must hold in your capacity as principal accounting officer. Can you, please, for the benefit of the Committee, explain how you can be the principal accounting officer? I am sure that we all accept that you cannot do the work of John Clarke, but you must have some say, control, knowledge or capacity to undertake

lefel sicrwydd a dybid yn briodol yn 1999, dyweder. Hyd a ddeallaf fi, mae'r trefniadau interim hyn yn cydymffurfio'n llwyr â rheoliadau a gofynion Ewrop ei hun.

[28] **Dafydd Wigley:** Wel, mae'n bosibl iawn eu bod. Ond y cwestiwn yw beth yw'r arferion gorau i ni. Alison, hoffech chi ddweud rhywbeth?

[29] **Alison Halford:** Diolch yn fawr iawn, Gadeirydd. Mr Shortridge, mae gennyf ambell gwestiwn i'w ofyn gan fod aelod o'r Pwyllgor ar goll. Nid wyf wedi gwirfoddoli i ofyn y cwestiynau hyn ond—

[30] **Dafydd Wigley:** Yn garedig iawn, rydych wedi ymateb i'r sefyllfa.

[31] **Alison Halford:** Yr wyf yn ddiolchgar am hynny, Gadeirydd. Cyn bwrw ymlaen at fy nghwestiynau fy hun, Mr Shortridge, yr wyf bob amser yn rhyfeddu at anferthedd eich rôl a'r lefel enfawr o atebolrwydd sy'n disgyn arnoch o reidrwydd fel y prif swyddog cyfrifo. A allwch chi, os gwelwch yn dda, er budd y Pwyllgor, egluro sut mae'n bosibl i chi fod y prif swyddog cyfrifo? Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn derbyn na allwch wneud gwaith John Clarke, ond mae'n rhaid i chi gael rhyw lais, rheolaeth, gwybodaeth neu

his area of responsibility if you are going to do your job as principal accounting officer in the exemplary manner that you and everybody around this table would expect?

**Mr Shortridge:** That is a very big question, and not an easy one for me to give a short answer to, but I will try to do it very briefly.

I take my responsibilities as principal accounting officer very seriously indeed. In the case of the Scottish Executive, say, those responsibilities have, very largely, been delegated down across the organisation. I have taken the view that these are personal responsibilities for me and I should not delegate them. I think that, actually, it is in the best interests of the Assembly that I do not. It does mean that the people who have the responsibility for spending the money know that they have a relationship of accountability to me, and not just to the Assembly at large or to individual Ministers. It is a very powerful and useful check, I think, on the way that they do their business when they know how seriously I take my role, and that they have this accountability relationship with me. That is why I do it. It is quite onerous. However, on the other hand, clearly, I cannot do it simply by myself; I have to rely on the quality of the people, and the quality of the systems that I have in place.

allu i ymgymryd â'i faes cyfrifoldeb ef os ydych i wneud eich swydd fel prif swyddog cyfrifo yn y ffordd deilwng y byddech chi a phawb o amgylch y bwrdd hwn yn ei disgwyl?

**Mr Shortridge:** Mae hynny'n gwestiwn mawr iawn, ac nid un hawdd i mi roi ateb byr iddo, ond fe geisiaf wneud hynny yn gryno iawn.

Yr wyf yn cymryd fy nghyfrifoldebau fel prif swyddog cyfrifo yn hynod o ddifrifol. Yn achos Gweithrediaeth yr Alban, dyweder, mae'r cyfrifoldebau hynny, i raddau helaeth, wedi'u dirprwyo i lawr ar draws y sefydliad. Yr wyf fi o'r farn fod y rhain yn gyfrifoldebau personol i mi ac na ddylwn eu dirprwyo. Yn wir, credaf ei bod er lles pennaf y Cynulliad nad wyf yn gwneud hynny. Mae'n golygu bod y bobl sy'n gyfrifol am wario'r arian yn gwybod bod ganddynt berthynas atebolrwydd â mi, nid dim ond â'r Cynulliad yn gyffredinol neu â Gweinidogion unigol. Mae'n gyfrwng hynod rymus a buddiol, yr wyf yn credu, i wirio sut y maent yn gwneud eu busnes, o wybod fy mod yn cymryd fy rôl gymaint o ddifrif a bod ganddynt y berthynas atebolrwydd hon â mi. Dyna pam yr wyf yn ei wneud. Mae'n bur feichus. Fodd bynnag, ar y llaw arall, yn amlwg, ni allaf ei wneud ar fy mhen fy

So the earlier questions that we had on training are very relevant and I acknowledge that this is one area to which I should be giving greater attention. However, I actually think that I serve the Assembly and this Committee best if I take these responsibilities as far as possible on my own shoulders.

hun; rhaid i mi ddibynnu ar ansawdd y bobl, ac ansawdd y systemau sydd gennyf. Felly mae'r cwestiynau cynharach a gawsom ar hyfforddiant yn berthnasol iawn ac yr wyf yn cydnabod bod hwn yn un maes y dylwn fod yn rhoi mwy o sylw iddo. Fodd bynnag, yr wyf yn credu fy mod yn gwasanaethu'r Cynulliad a'r Pwyllgor hwn orau os ysgwyddaf y cyfrifoldebau hyn fy hun cyn belled ag sy'n bosibl.

[32] **Alison Halford:** I will not ask a supplementary to that question. I am very grateful for that very helpful answer. Turning to the helpful explanation on the definition of qualifications made by the National Audit Office Wales to eight out of 24 audit certificates issued by it on European grant claims, quite a few errors have been set out under paragraph 5.14. I am requested to ask you the following: these errors appear to range from basic clerical errors—I refer to paragraph 5.14—to a lack of understanding of European regulations among some project managers; have you covered this under your training initiative or can you add more to the reasons for the basic mistakes and the misunderstanding or lack of understanding of European regulations by project managers?

[32] **Alison Halford:** Nid wyf am ofyn cwestiwn atodol i hynny. Yr wyf yn ddiolchgar iawn am ateb hynod fuddiol. I droi at yr esboniad buddiol o'r diffiniadau o amodau a roddwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar wyth o'r 24 tystysgrif archwilio a roddwyd ganddi ar hawliadau grant Ewropeaidd, mae cryn nifer o wallau wedi'u nodi o dan baragraff 5.14. Gofynnir i mi ofyn hyn i chi: mae'n ymddangos bod y gwallau yn amrywio o wallau clercaidd sylfaenol—cyfeiriaf at baragraff 5.14—i ddiffyg dealltwriaeth o reoliadau Ewrop ymysg rhai rheolwyr prosiect; a ydych wedi ymdrin â hyn o dan eich cynllun hyfforddi neu a allwch ychwanegu ymhellach at y rhesymau dros y gwallau sylfaenol a'r gamddealltwriaeth neu'r diffyg dealltwriaeth o reoliadau Ewrop gan reolwyr prosiectau?

**Mr Shortridge:** Mr Pavelin may want to comment further, but I think that the main problems in relation to these certificates relate to the sponsored bodies which were submitting the certificates, not to staff here. That is why WEFO has in place a range of activities, ranging from more guidance to workshops to try to enhance the understanding of the sponsoring bodies as to what the requirements are.

**Mr Shortridge:** Efallai y bydd Mr Pavelin am wneud sylwadau pellach, ond credaf fod a wnelo'r problemau pennaf mewn perthynas â'r tystysgrifau hyn â'r cyrff noddedig a oedd yn cyflwyno'r tystysgrifau, nid â staff yma. Dyna pam y mae WEFO wedi sefydlu ystod o weithgareddau, yn amrywio o ragor o ganllawiau i weithdai i geisio gwella dealltwriaeth y cyrff noddi o'r gofynion.

[33] **Alison Halford:** Are you happy that there are enough controls within WEFO to stop anything from basic to more serious problems occurring?

[33] **Alison Halford:** A ydych yn fodlon fod digon o fesurau rheoli o fewn WEFO i atal unrhyw beth o broblemau sylfaenol i rai mwy difrifol rhag digwydd?

**Mr Shortridge:** The basic control of assurance is the certification process. I would be most concerned if there was evidence of staff in WEFO not taking sufficiently seriously the nature of the qualifications being applied to the certificates. Clearly, judgment has to be taken, when there is a qualification like this, on what is going to be done, before you make the payment. I have no evidence that WEFO has not been taking these matters sufficiently seriously. It often is a case of judgment and I know that, in some cases, these matters are referred to Laurie Pavelin as chief accountant, so that there can be a second opinion on what is the appropriate thing to do in these circumstances.

My own view is that, having established the funding office as an executive agency, that does sharpen up the accountability framework within which these matters are dealt with. In the past, this was all done as routine work by a division in the Welsh Office. I think that there probably is a case for saying—and this is one of the things that is being identified here—that WEFO has an inherited problem in terms of having to deal with grant payments or grant applications which are quite historic and go back quite some time when the standards being applied were not as sharp as they are today and indeed not as sharp as they should be. So, there were quite a lot of issues in there. However, my own view is that establishing WEFO, the accountability regime that goes with it, and the separate accounts that you have for WEFO, means that we can all take greater assurance from the accountability framework that exists.

**Mr Shortridge:** Y broses ddilysu yw'r ffordd sylfaenol o reoli sicrwydd. Byddwn yn hynod bryderus pe bai tystiolaeth nad yw staff WEFO yn cymryd natur yr amodau a roddir ynghlwm wrth y tystysgrifau yn ddigon o ddifrif. Yn amlwg, rhaid llunio barn, lle bo amodau fel hyn, ynglŷn â'r hyn sydd i'w wneud, cyn talu. Nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth nad yw WEFO wedi bod yn cymryd y materion hyn ddigon o ddifrif. Mater o farn yw yn aml a gwn fod y materion hyn, weithiau, yn cael eu cyfeirio at Laurie Pavelin fel y prif gyfrifydd, er mwyn cael ail farn ar yr hyn y mae'n briodol ei wneud o dan yr amgylchiadau hyn.

Fy marn i yw bod sefydlu'r swyddfa gyllido fel asiantaeth weithredol wedi gwneud y fframwaith atebolrwydd y delir â'r materion hyn oddi mewn iddo yn fwy llym. Yn y gorffennol, câi hyn oll ei wneud fel gwaith arferol gan is-adran yn y Swyddfa Gymreig. Credaf fod achos dros ddweud mae'n debyg—a dyna un o'r pethau sy'n cael ei amlygu yma—fod WEFO wedi etifeddu problem yn yr ystyr ei bod yn gorfod delio â thaliadau grant neu geisiadau am grant sy'n hanesyddol i gryn raddau ac sy'n mynd yn ôl gryn amser pan nad oedd y safonau a gâi eu harfer mor llym ag yr ydynt heddiw ac, yn wir, nid mor llym ag y dylent fod. Felly, yr oedd cryn nifer o faterion i'w hystyried yna. Fodd bynnag, fy marn i yw bod sefydlu WEFO, y gyfundrefn atebolrwydd sy'n mynd gyda hi, a'r cyfrifon ar wahân sydd gennych i WEFO, yn golygu y gallwn oll deimlo mwy o sicrwydd o'r fframwaith atebolrwydd sy'n bodoli.

[34] **Alison Halford:** If anyone else wants to

[34] **Alison Halford:** Os oes unrhyw un arall

come in, please do. In paragraph 5.16 of the general report, the Auditor General has provided an early warning of difficulties that some grant recipients are experiencing in documenting their project spend adequately enough to satisfy the auditors. To what extent is the suspension of annual audits a reaction by WEFO and the Assembly to these difficulties? Does that make sense?

**Mr Shortridge:** Mr Pavelin may be able to help me, but I was not aware—I had not made the connection—that the point that you refer to here is directly related to the issue of the suspension of the annual certificates for ESF. My own view is—and I obviously have sought information on the eight qualifications—that those do provide quite a number of examples; probably three or four of the examples are down to poor documentation. So I had made that connection, not the wider one, but I do not know if Mr Pavelin can comment.

**Mr Pavelin:** I think, in terms of ESF funding, responsibility for this only in fact came to the Assembly from 1 April 2001, and so, prior to that, we were dealing with the Department for Education and Skills. However, the particular problem on ESF is that most of the money is going for the provision of services rather than the provision of goods or structures or anything of that sort. Many of the applicants are not required to keep the analysis and the detail for their own internal purposes, but it is an additional requirement on them in regard to ESF. Therefore, if you have an educational organisation that is putting on an additional course, what it has to be able to do is to provide sufficient and adequate documentary evidence showing what its additional costs were, and showing what its additional outcome actually is. Actually, most of these organisations are not particularly well geared up for dealing with that. That is why there has been this particular push by Education and Learning Wales itself to go out to these organisations and to explain to them in more detail exactly what it is they have to keep in order to satisfy the European requirements.

am ddweud rhywbeth, cofiwch wneud hynny. Ym mharagraff 5.16 o'r adroddiad cyffredinol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi rhybudd cynnar o'r anawsterau y mae rhai o'r rhai sy'n derbyn grantiau yn eu hwynebu wrth gofnodi eu gwariant ar eu prosiectau yn ddigonol i fodloni'r archwilywyr. I ba raddau y mae atal yr archwiliadau blynyddol yn ymateb gan WEFO a'r Cynulliad i'r anawsterau hyn? Ydy hynny'n gwneud synnwyr?

**Mr Shortridge:** Efallai y gall Mr Pavelin fy helpu, ond nid oeddwn yn ymwybodol—nid oeddwn wedi meddwl am y cysylltiad—fod a wnelo'r pwynt y cyfeiriwch ato yma yn uniongyrchol â mater atal y tystysgrifau blynyddol ar gyfer ESF. Fy marn i—ac yn amlwg yr wyf wedi ceisio gwybodaeth am yr wyth sydd ag amodau ynghlwm wrthynt—yw bod y rhain yn cynnig nifer o enghreifftiau; mae'n debyg fod tair neu bedair o'r enghreifftiau i'w priodoli i drefn cadw dogfennau wael. Felly gwneuthum y cysylltiad hwnnw, er nad yr un ehangach, ond ni wn a oes gan Mr Pavelin rywbeth i'w ddweud.

**Mr Pavelin:** Yr wyf yn meddwl, yn nhermau cyllid ESF, mai dim ond ar 1 Ebrill 2001 y daeth y cyfrifoldeb am hyn i'r Cynulliad, ac felly, cyn hynny, yr oeddem yn delio â'r Adran Addysg a Sgiliau. Fodd bynnag, y broblem neilltuol ynghylch ESF yw bod y rhan fwyaf o'r arian yn mynd ar ddarparu gwasanaethau yn hytrach na darparu nwyddau neu strwythurau neu unrhyw beth o'r fath. Nid oes gofyn i lawer o'r ymgeiswyr gadw'r dadansoddiad a'r manylion at eu dibenion mewnol eu hunain, ond mae'n ofyniad ychwanegol arnynt mewn perthynas ag ESF. Felly, os oes gennych sefydliad addysgol sy'n darparu cwrs ychwanegol, yr hyn y mae'n rhaid iddo ei wneud yw darparu'r dystiolaeth ddogfennol ofynnol i ddangos beth oedd ei gostau ychwanegol, a dangos beth yw'r canlyniad ychwanegol mewn gwirionedd. Yn ymarferol, nid oes gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau hyn drefniadau da iawn i ddelio â hynny. Dyna pam y cafwyd yr ymdrech arbennig hon gan Dysgu ac Addysgu Cymru ei hun i fynd allan at y sefydliadau hyn ac egluro wrthynt yn fanylach beth yn union y mae'n rhaid iddynt ei gadw er mwyn bodloni'r gofynion

Ewropeaidd.

[35] **Dafydd Wigley:** Did we in fact have a problem in Wales on this? I mean, it arose from England, this moratorium. If we were managing alright in Wales, why did we need to give up a good thing?

**Mr Pavelin:** There have been problems in Wales in the past, and, indeed, this Committee looked at the case of Coleg Gwent, where some European moneys had to be repaid.

[36] **Dafydd Wigley:** Yes. Sorry, I meant problems with the system. I mean, the fact that we have more audits is a good mechanism for finding out problems like those with Coleg Gwent. As I understand it from what Jon Shortridge was saying a moment ago, the problems that led to the moratorium were problems that arose in England, and that we have followed on down that road. Am I not correct?

**Mr Shortridge:** To get the moratorium into context, this related to the new projects which came out of the new programmes which were initiated in October 2000. So, it was only from October 2001 that you would need to have the annual certificates for the first of these projects coming on stream. There was a three-month timescale allowed for those certificates to be produced, so the issue really only emerged from about January of this year, and, obviously, there are more projects in England so it is seen as a bigger scale of issue in England. However, actually this is a very recent matter which has come to our attention and which led to the moratorium.

**Mr Pavelin:** May I just add, Chair, that there have been issues with external auditors. Here we are not generally dealing with the National Audit Office, but private firms of accountants have very real concerns about their professional indemnity liability. Many of them have started to withdraw from getting involved in this area of work, and, indeed, I was visited by the Institute of Chartered Accountants in England and Wales two or three weeks ago, and invited to join a working group involving Government and

[35] **Dafydd Wigley:** Oedd gennym ni yng Nghymru problem ar hyn mewn gwirionedd? Hynny yw, o Loegr y deilliodd, y moratoriwm hwn. Os oeddem yn ymdopi'n iawn yng Nghymru, pam oedd angen i ni roi'r gorau i rywbeth da?

**Mr Pavelin:** Mae problemau wedi codi yng Nghymru yn y gorffennol ac, yn wir, ystyriodd y Pwyllgor hwn achos Coleg Gwent, lle bu'n rhaid ad-dalu peth arian Ewropeaidd.

[36] **Dafydd Wigley:** Ie. Mae'n ddrwg gen i, problemau o ran y system yr oeddwn yn ei olygu. Hynny yw, mae'r ffaith fod gennym fwy o archwiliadau yn fecanwaith da i ddarganfod problemau megis y rheini yng Ngholeg Gwent. Fel y deallaf o'r hyn a ddywedodd Jon Shortridge funud yn ôl, problemau a gododd yn Lloegr oedd y problemau a arweiniodd at y moratoriwm, a'n bod ninnau wedi eu dilyn i lawr y ffordd honno. Onid ydw i'n iawn?

**Mr Shortridge:** I roi'r moratoriwm yn ei gyd-destun, yr oedd yn ymwneud â'r prosiectau newydd a ddaeth allan o'r rhaglenni newydd a sefydlwyd yn Hydref 2000. Felly, dim ond o Hydref 2001 y byddai angen y tystysgrifau blynyddol ar gyfer y prosiectau cyntaf o'r fath i gael eu sefydlu. Caniatwyd tri mis i gynhyrchu'r tystysgrifau hynny, felly dim ond yn Ionawr eleni y daeth y mater i'r wyneb mewn gwirionedd, ac, yn amlwg, mae mwy o brosiectau yn Lloegr felly mae'r mater i'w weld ar raddfa fwy yn Lloegr. Fodd bynnag, mater diweddar iawn yw hwn mewn gwirionedd sydd wedi dod i'n sylw ac wedi arwain at y moratoriwm.

**Mr Pavelin:** Gaf fi ychwanegu, Gadeirydd, fod materion wedi codi gydag archwilwyr allanol. Yma nid ydym yn delio'n gyffredinol â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ond mae gan gwmnïau preifat o gyfrifwyr bryderon gwirioneddol ynglŷn â'u hatebolrwydd indemnïad proffesiynol. Mae llawer ohonynt wedi dechrau tynnu'n ôl rhag ymwneud â'r maes gwaith hwn, ac, yn wir, ymwelodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr â mi ddwy neu dair wythnos yn ôl, a'm gwahodd i ymuno â gweithgor

the profession to look at the certification of grant claims and the arrangements between Government departments and the profession for the future to make sure that there is a very clear definition of exactly what is expected of the auditors and there is an understanding of the work being undertaken by the auditors, and an understanding of what the expectation is of Government departments. This very much mirrors what has been in place between Government departments and the Audit Commission for many years, which works under a system of grant instructions. Now, the profession is starting to become very concerned, and also wants to enter into dialogue and to work this up in some detail.

[37] **Dafydd Wigley:** I assume that you will be going along to that, because it is a very important thing.

**Mr Pavelin:** Indeed, I will be going along to that.

[38] **Dafydd Wigley:** Alison?

[39] **Alison Halford:** I think that I have two more questions. I am charged to ask you, on the decision to suspend this tranche of auditing, was it due to a need to minimise slippage in the overall ESF programme of draw down and project spend in Wales? In other words, was it an absolute necessity to keep the show on the road?

**Mr Shortridge:** Not to my knowledge, and I would be very surprised if it was. Everything that I have seen indicates quite the contrary. I would be very unhappy if that was driving it and I am sure that it was not.

[40] **Alison Halford:** What steps are you taking, Mr Shortridge, to ensure that the problems that the interim annual audits would have detected at a relatively early stage in the lifetime of a project are actually resolved by WEFO and its project sponsors, and not simply left to create even bigger problems or difficulties for programme spend when the auditor is called in at the conclusion of the project?

sy'n cynnwys y Llywodraeth a'r proffesiwn i edrych ar ddilysu hawliadau grant a'r trefniadau rhwng adrannau'r Llywodraeth a'r proffesiwn ar gyfer y dyfodol i sicrhau diffiniad clir iawn o'r hyn a ddisgwylir gan yr archwilywyr a bod yna ddealltwriaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr archwilywyr, a dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir gan adrannau'r Llywodraeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd rhwng adrannau'r Llywodraeth a'r Comisiwn Archwilio ers blynyddoedd lawer, sy'n gweithio o dan system o gyfarwyddiadau grant. Bellach, mae'r proffesiwn yn dechrau pryderu'n fawr iawn, ac mae hefyd am ymuno mewn deialog a gweithio ar hyn mewn manylder.

[37] **Dafydd Wigley:** Yr wyf yn cymryd yn ganiataol y byddwch yn mynd i hwnnw, oherwydd mae'n beth pwysig iawn.

**Mr Pavelin:** Yn sicr, byddaf yn mynd i hwnnw.

[38] **Dafydd Wigley:** Alison?

[39] **Alison Halford:** Yr wyf yn meddwl bod gen i ddau gwestiwn arall. Yr wyf i fod i ofyn ichi, ar y penderfyniad i atal y drefn archwilio hon, ai'r rheswm oedd bod angen lleihau i'r eithaf y llithriad yn y rhaglen ESF drwyddi draw o ran tynnu arian i law a gwario ar brosiectau yng Nghymru? Mewn geiriau eraill, a oedd yn gwbl angenrheidiol er mwyn cadw pethau i fynd?

**Mr Shortridge:** Nid hyd y gwn i, a byddwn yn synnu'n fawr pe bai. Mae popeth yr wyf fi wedi'i weld yn awgrymu'r gwrthwyneb yn llwyr. Byddwn yn anhapus iawn os mai dyna a'i hysgogodd ac yr wyf yn siŵr nad dyna fel ag yr oedd.

[40] **Alison Halford:** Pa gamau ydych chi yn eu cymryd, Mr Shortridge, i sicrhau bod y problemau y byddai'r archwiliadau blynyddol interim wedi'u darganfod yn gymharol gynnar yn oes prosiect yn cael eu datrys mewn gwirionedd gan WEFO a'i noddwyr prosiect, ac nid yn cael eu gadael i greu problemau neu anawsterau mwy fyth i wariant y rhaglen pan gaiff yr archwilydd ei alw i mewn ar ddiwedd y prosiect?

**Mr Shortridge:** The review that is being undertaken is intended to be completed in June, so I would expect there to be an outcome in June. I will be asking John Clarke, as accounting officer for WEFO, to inform the Committee of what that outcome is.

[41] **Dafydd Wigley:** I want to clarify that point, which I think is a very important one. You have repeated that John Clarke is the accounting officer. Do you believe that, when we get into details on matters such as this, we should invite John Clarke to answer for them, rather than yourself?

**Mr Shortridge:** I did consider whether I should have John Clarke with me on this occasion. I am conscious that, in probably two months' time, a report will come from the Auditor General on issues around accounting within WEFO. I felt, for that reason, that it was appropriate that I took the matter for today in the knowledge that you will be able to come back to him in two months' time.

[42] **Dafydd Wigley:** I am grateful for that. Alison?

[43] **Alison Halford:** Thank you, Chair. Are you happy that the training given to managers of European projects is satisfactory and adequate?

**Mr Shortridge:** As I said earlier, we are investing a lot in training. WEFO was set up at quite short notice, and has been—I think that John Clarke would say this—understaffed during its early 18 months or two years of existence. So I would not want to give you an absolute assurance this afternoon that the training could not be improved and be better. That is an issue that you should rightly be pursuing with John Clarke.

[44] **Dafydd Wigley:** We are grateful to note what you said earlier on that matter.

[45] **Alison Halford:** The Chair has already touched on this issue. The Auditor General

**Mr Shortridge:** Y bwriad yw y bydd yr adolygiad sydd ar y gweill yn cael ei gwblhau ym Mehefin, felly byddwn yn disgwyl canlyniad ym Mehefin. Byddaf yn gofyn i John Clarke, fel swyddog cyfrifo WEFO, roi gwybod i'r Pwyllgor beth yw'r canlyniad hwnnw.

[41] **Dafydd Wigley:** Yr wyf am gael eglurhad ar y pwynt hwnnw, sydd yn un pwysig iawn yn fy marn i. Rydych wedi ailadrodd mai John Clarke yw'r swyddog cyfrifo. Ydych chi'n meddwl, pan fyddwn yn edrych ar fanylder materion fel hyn, y dylem wahodd John Clarke i ateb arnynt, yn hytrach na chi eich hun?

**Mr Shortridge:** Gwneuthum ystyried a ddylai John Clarke fod gyda mi ar yr achlysur hwn. Yr wyf yn ymwybodol y ceir adroddiad, ymhen rhyw ddeufis mae'n debyg, gan yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion ynglŷn â chyfrifo o fewn WEFO. Teimlwn, am y rheswm hwnnw, ei bod yn briodol i mi ymdrin â'r mater heddiw gan wybod y byddwch yn gallu dod yn ôl ato ymhen deufis.

[42] **Dafydd Wigley:** Yr wyf yn ddiolchgar am hynny. Alison?

[43] **Alison Halford:** Diolch, Gadeirydd. Ydych chi'n fodlon fod yr hyfforddiant a roddir i reolwyr prosiectau Ewropeaidd yn foddhaol a digonol?

**Mr Shortridge:** Fel y dywedais yn gynharach, yr ydym yn buddsoddi llawer mewn hyfforddiant. Rhybudd cymharol fyr a gafwyd cyn sefydlu WEFO, ac—yr wyf yn meddwl y byddai John Clarke yn dweud hyn—mae wedi bod yn brin o staff yn ystod 18 mis neu ddwy flynedd gynnar ei fodolaeth. Felly ni fyddwn am roi unrhyw sicrwydd absoliwt i chi y prynhawn yma na ellid gwella'r hyfforddiant a'i wneud yn well. Mae hwnnw'n fater y dylech fynd ar ei ôl gyda John Clarke mewn gwirionedd.

[44] **Dafydd Wigley:** Yr ydym yn falch o nodi'r hyn a ddywedoch yn gynharach ar y mater hwnnw.

[45] **Alison Halford:** Mae'r Cadeirydd eisoes wedi cyffwrdd â'r mater hwn. Mae'r

has flagged up a risk that WEFO may claw back grants from individual projects. Is there a danger that the money might be lost to Wales, or would it simply be recycled by WEFO into other projects?

**Mr Shortridge:** I may need to be corrected on this answer, but I think that the position is this: with the new programmes, any clawback of grant can be recycled by WEFO. Where there could be a problem of clawback in a cash sense, would be at the end of the programme, when WEFO is no longer in a position to make new grants; then, any clawback clearly could not be recycled within the system.

[46] **Dafydd Wigley:** Could you not come in on the mid-term review? I realise that that is not because of the cash flow, but because of the focus it is given at that time.

**Mr Shortridge:** I do not think so. It would only happen if, as a result of the mid-term review, the tranches of money available to the individual teams were changed and that took away the flexibility. So there is a logical possibility, but I think that it is pretty unlikely.

[47] **Alison Halford:** I feel rather like Anne Robinson. I have two questions to go, but you are not the weakest link, Mr Shortridge. Under what circumstances might European funds have to be surrendered back by Wales to Europe?

**Mr Shortridge:** This, again, is quite complicated. Under the old schemes, where there can be clawback—and, indeed, at least one Committee member will know very well about the clawback—

[48] **Ann Jones:** I have an interest to declare; I had nothing to do with Rhuddlan Borough Council. I was on Denbighshire County Council, which had to pay the tab at the end, but I was not a member of Rhuddlan Borough Council.

[49] **Dafydd Wigley:** We have noted that.

Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw at risg y gallai WEFO adfachu grantiau oddi wrth brosiectau unigol. A oes perygl y bydd Cymru yn colli arian, neu a fyddai'n cael ei ailgylchu gan WEFO i mewn i brosiectau eraill?

**Mr Shortridge:** Efallai y bydd angen fy nghywiro ar yr ateb hwn, ond credaf mai dyma'r sefyllfa: o fewn y rhaglenni newydd, gall WEFO ailgylchu unrhyw grantiau a adfachir. Ar ddiwedd y rhaglen y ceid problem gydag adfachu, o safbwynt arian, pan nad yw WEFO mwyach mewn sefyllfa i roi grantiau newydd; yna, yn amlwg, ni allai unrhyw arian a adfachwyd gael ei ailgylchu o fewn y system.

[46] **Dafydd Wigley:** Oni allech ddod i mewn ar yr adolygiad canol tymor? Yr wyf yn sylweddoli nad oherwydd y llif arian y mae hyn, ond oherwydd y ffocws a roddir iddo bryd hynny.

**Mr Shortridge:** Nid wyf yn meddwl. Ni fyddai hynny ond yn digwydd pe bai'r cyfrannau arian sydd ar gael i'r timau unigol yn newid o ganlyniad i'r adolygiad canol tymor a bod hynny'n dileu'r hyblygrwydd. Felly mae posibilrwydd rhesymegol, ond yr wyf yn meddwl ei fod yn bur annhebygol.

[47] **Alison Halford:** Yr wyf yn teimlo braidd fel Anne Robinson. Mae gennyf ddau gwestiwn ar ôl, ond nid chi yw'r ddolen wannaf, Mr Shortridge. O dan ba amgylchiadau y mae'n bosibl y byddai'n rhaid i Gymru ddychwelyd arian Ewropeaidd i Ewrop?

**Mr Shortridge:** Mae hyn, eto, yn bur gymhleth. O dan yr hen gynlluniau, lle mae'n bosibl y ceir adfachu—ac, yn wir, bydd o leiaf un aelod o'r Pwyllgor yn gwybod yn dda iawn am yr adfachu—

[48] **Ann Jones:** Rhaid i mi ddatgan buddiant. Doedd gen i ddim oll i'w wneud â Chyngor Bwrdeistref Rhuddlan. Yr oeddwn ar Gyngor Sir Ddinbych, y bu'n rhaid iddo dalu'r bil yn y pen draw, ond nid oeddwn yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Rhuddlan.

[49] **Dafydd Wigley:** Yr ydym wedi nodi hynny.

**Mr Shortridge:** The situation with the old scheme was that we did not have additional public expenditure cover, as the Committee will well know.

[50] **Dafydd Wigley:** Indeed.

**Mr Shortridge:** So, where there is clawback, the cash goes back to Europe, but the spending power remains with the Assembly.

[51] **Dafydd Wigley:** Are you saying that, as the money went to the Treasury, it would be the Treasury in London that would pay it back to Europe, not ourselves?

**Mr Shortridge:** Well—

[52] **Dafydd Wigley:** Perhaps I should not press you on that unduly.

**Mr Shortridge:** I think that the point to hang on to is that, under the old scheme, we retain the spending power in the block. So, even if it is clawed back, the actual ability to spend the money stays with the Assembly. Under the new arrangements, where we have this additional money, the spending power has come, in effect, straight from Europe. If there were clawback under the new scheme, then it would go back to Europe.

[53] **Dafydd Wigley:** So there is a downside to the additional money over and above the block.

[54] **Alison Halford:** This is my final question. Paragraph 5.8 refers to recommendations made by the Auditor General to the Welsh European Funding Office on improving its control system. Now, the whole tranche of questions from myself and the Chair has been on whether WEFO is doing its job and controlling the money. Can you give us an assurance that the recommendations in paragraph 5.8 will be dealt with promptly by WEFO? In other words, are the controls satisfactory, and if not, when will they be?

**Mr Shortridge:** What is being referred to here, I am sure, is the control weaknesses which the Auditor General reported on in

**Mr Shortridge:** Y sefyllfa gyda'r hen gynllun oedd nad oedd gennym ddarpariaeth gwariant cyhoeddus ychwanegol, fel y gŵyr y Pwyllgor yn iawn.

[50] **Dafydd Wigley:** Yn wir.

**Mr Shortridge:** Felly, lle ceir adfachu, mae'r arian yn mynd yn ôl i Ewrop, ond mae'r grym gwario yn aros gyda'r Cynulliad.

[51] **Dafydd Wigley:** Ydych chi'n dweud, gan mai i'r Trysorlys yr aeth yr arian, mai'r Trysorlys yn Llundain fyddai'n ei dalu'n ôl i Ewrop, nid ni?

**Mr Shortridge:** Wel—

[52] **Dafydd Wigley:** Efallai na ddylwn bwysu'n ormodol arnoch ar hynny.

**Mr Shortridge:** Yr wyf yn credu mai'r pwynt pwysig i'w gofio yw, o dan yr hen gynllun, ein bod ni'n cadw'r grym gwario yn y bloc. Felly, hyd yn oed os yw'n cael ei adfachu, mae'r gallu i wario'r arian yn aros gyda'r Cynulliad. O dan y trefniadau newydd, lle mae gennym yr arian ychwanegol hwn, mae'r grym gwario wedi dod, mewn gwirionedd, yn syth o Ewrop. Pe ceid adfachu o dan y cynllun newydd, yna byddai'n mynd yn ôl i Ewrop.

[53] **Dafydd Wigley:** Felly mae anfantais i'r arian sy'n ychwanegol at y bloc.

[54] **Alison Halford:** Dyma fy nghwestiwn olaf. Mae paragraff 5.8 yn cyfeirio at yr argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar wella ei system reoli. Nawr, byrdwn yr holl gwestiynau gennyf fi a'r Cadeirydd fu pa un a yw WEFO yn gwneud ei waith ac yn rheoli'r arian. Allwch chi roi sicrwydd i ni y bydd WEFO yn delio ar fyrder â'r argymhellion ym mharagraff 5.8? Mewn geiriau eraill, a yw'r mesurau rheoli yn foddhaol, ac os nad ydynt, pa bryd y byddant?

**Mr Shortridge:** Yr hyn yr ydych yn cyfeirio ato yma, yr wyf yn siŵr, yw'r gwendidau rheoli yr adroddodd yr Archwilydd

WEFO's management letter. The weaknesses identified were important, and I have had a report from John Clarke on those, so I am aware of the action that he has taken, or is taking, in relation to each of them. I imagine that this is something you might want to have the opportunity to return to with John Clarke, when he comes in two months' time.

[55] **Dafydd Wigley:** I think that we will. Eleanor, you have a short question?

[56] **Eleanor Burnham:** Do all these problems occur because of the complexities of European funding? I was talking to a Business Connect officer, who is a very experienced guy, up in north Wales, and he says that the difficulty that he and other people have in accessing funds is because it is very difficult to ascertain exactly where they have all come from—he called it tainted money. Is there anything that we can do in the Assembly to clarify it for the people out there, through the training that we have discussed—I suppose better training and monitoring—to ensure that their lives are made easier, so that they do not make all these mistakes, which could result in clawback? These pots of money are very complicated, are they not?

**Mr Shortridge:** It is a familiar complaint, and it is a real issue. I think that all I can say to the Committee this afternoon is that this is something of which WEFO is well aware, and is seeking, through a range of activities, to help the applicants or the sponsors to do better. I have to say that one of my basic approaches to these matters is that I am not a great believer in just sending out instructions. It is important to have the instructions, but what you need to do is to have arrangements where you can embed the best practice, and that does mean holding workshops, talking to people, and engaging with people, and that is one of the elements in WEFO's armoury.

[57] **Dafydd Wigley:** I am grateful for that. Before moving on, very quickly, when the

Cyffredinol arnynt yn llythyr rheoli WEFO. Yr oedd y gwendidau a nodwyd yn bwysig, ac yr wyf wedi cael adroddiad gan John Clarke ar y rheini, felly yr wyf yn ymwybodol o'r camau y mae ef wedi'u cymryd, neu y mae yn eu cymryd, mewn perthynas â phob un ohonynt. Yr wyf yn tybio bod hwn yn rhywbeth y byddech am gael y cyfle i ddychwelyd ato gyda John Clarke, pan ddaw ymhen deufis.

[55] **Dafydd Wigley:** Yr wyf yn siŵr y gwnawn. Eleanor, mae gennych gwestiwn byr?

[56] **Eleanor Burnham:** A yw'r problemau hyn i gyd yn codi oherwydd cymhlethdodau'r drefn gyllido Ewropeaidd? Yr oeddwn yn siarad â swyddog Cyswllt Busnes, sy'n ddyn hynod brofiadol, i fyny yng ngogledd Cymru, a dywed mai'r anhawster a gaiff ef a phobl eraill i gyrchu at arian yw am ei bod hi'n anodd iawn canfod o ble'n union y mae'r cyfan wedi dod—ei enw ef arno oedd arian halogedig. Oes unrhyw beth y gallwn ei wneud yn y Cynulliad i wneud hyn yn fwy eglur i'r bobl allan yna, drwy'r hyfforddiant yr ydym wedi'i drafod—gwell hyfforddiant a monitro mae'n debyg—i sicrhau bod eu bywydau yn dod yn haws, fel nad ydynt yn gwneud yr holl gamgymeriadau hyn, a allai arwain at adfachu? Mae'r potiau arian hyn yn gymhleth iawn, onid ydynt?

**Mr Shortridge:** Mae'n gŵyn gyfarwydd, ac yn ystyriaeth wirioneddol. Yr wyf yn credu mai'r cyfan y medraf ei ddweud wrth y Pwyllgor y prynhawn yma yw bod hwn yn rhywbeth y mae WEFO yn ymwybodol iawn ohono, ac mae'n ceisio, drwy amryw weithgareddau, helpu'r ymgeiswyr neu'r noddwyr i wneud yn well. Mae'n rhaid i mi ddweud mai un o'r ffyrdd sylfaenol yr wyf fi yn ymdrin â'r materion hyn yw nad wyf yn gredwr mawr mewn cylchredeg cyfarwyddiadau yn unig. Mae'n bwysig cael y cyfarwyddiadau, ond yr hyn y mae angen ei wneud yw cael trefniadau lle mae modd gwreiddio'r arferion gorau, ac mae hynny'n golygu cynnal gweithdai, siarad â phobl, ac ymwneud â phobl, ac mae hynny yn un o'r elfennau yn narpariaeth WEFO.

[57] **Dafydd Wigley:** Yr wyf yn ddiolchgar am hynny. Cyn symud ymlaen, yn gyflym

moratorium comes to an end in June, what options will you have then?

**Mr Shortridge:** It does not absolutely follow that it will come to an end in June.

[58] **Dafydd Wigley:** But if it does?

**Mr Shortridge:** The expectation is that the review will be completed in June, and, in the light of that, decisions will be taken. My hope is that the outcome will be that there will be greater clarification as to what the requirement on the auditors is to provide the necessary assurance to approve the certificates.

[59] **Dafydd Wigley:** And having done that, we can revert to the status quo?

**Mr Shortridge:** Yes, although there may have to be some transitional period to take account of the fact that we have lost—whatever it would be—four months or so.

[60] **Dafydd Wigley:** We will now move onto the Assembly's new accounting system and the progress towards consolidated and whole of Government accounts, and the introduction of resource-based budgeting. Paragraph 2.11 of the general report comments on the introduction of the Assembly's new computerised accounting system. How successful was the implementation on 1 April 2002?

**Mr Shortridge:** I will invite Mr Pavelin to follow up my initial comments, but, essentially, we successfully introduced the new arrangements on 1 April, and the project came in within budget. We are relying exclusively on the new arrangements now, so they are working. We have not closed down the old arrangements, so we would certainly, I would expect, have at least six months within which we could fall back on them if there were any problems. The new system is not working as fully and as effectively as we would all like it to work, but I think that is the nature of information technology systems—

[61] **Dafydd Wigley:** Things have slowed

iawn, pan ddaw'r moratoriwm i ben ym Mehefin, pa opsiynau fydd gennych chi wedyn?

**Mr Shortridge:** Nid yw'n dilyn yn gwbl bendant y bydd yn dod i ben ym Mehefin.

[58] **Dafydd Wigley:** Ond os daw?

**Mr Shortridge:** Y disgwyl yw y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau ym Mehefin, ac, yng ngoleuni hynny, gwneir penderfyniadau. Fy ngobaith yw mai'r canlyniad fydd y ceir mwy o eglurder ynglŷn â'r gofyniad ar yr archwilwyr i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i gymeradwyo'r tystysgrifau.

[59] **Dafydd Wigley:** Ac wedi gwneud hynny, allwn ni fynd yn ôl at y *status quo*?

**Mr Shortridge:** Gallwn, er y bydd yn rhaid cael rhyw fath o gyfnod trosiannol efallai i gydnabod y ffaith ein bod wedi colli—beth bynnag a fyddai—rhyw bedwar mis.

[60] **Dafydd Wigley:** Symudwn ymlaen yn awr at system gyfrifo newydd y Cynulliad a'r camau a gymerwyd tuag at gyfrifon cyfunol a Llywodraeth gyfan, a chyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau. Mae paragraff 2.11 o'r adroddiad cyffredinol yn ymdrin â chyflwyno system gyfrifo gyfrifiadurol newydd y Cynulliad. Pa mor llwyddiannus y'i rhoddwyd ar waith ar 1 Ebrill 2002?

**Mr Shortridge:** Byddaf yn gwahodd Mr Pavelin i ychwanegu at fy sylwadau cychwynnol, ond, yn eu hanfod, cafodd y trefniadau newydd eu cyflwyno'n llwyddiannus ar 1 Ebrill, a chwblhawyd y prosiect o fewn y gyllideb. Yr ydym yn dibynnu'n llwyr ar y trefniadau newydd erbyn hyn, felly maent yn gweithio. Nid ydym wedi dod â'r hen drefniadau i ben, felly byddai gennym yn sicr, byddwn yn tybio, o leiaf chwe mis i droi'n ôl atynt pe bai unrhyw broblemau. Nid yw'r system newydd yn gweithio mor llawn ac mor effeithiol ag y byddem i gyd yn dymuno, ond yr wyf yn meddwl mai dyna natur systemau technoleg gwybodaeth—

[61] **Dafydd Wigley:** Mae pethau wedi arafu,

down, have they?

**Mr Shortridge:** I do not think that they have slowed down. Just to entertain the Committee, one thing that did happen is that, I think, three days into the new system, the software was all working but the computer itself fused. [*Laughter.*]

[62] Dafydd Wigley: **Well, if you introduce it on 1 April then I guess that you will have problems.**

Mr Shortridge: **For the second time in 10 years, we had a problem with our mainframe computer, which we had not predicted. We put our recovery arrangements in place and had the system up and running again really quite quickly, but we had not predicted that one.**

Mr Pavelin: **I think that you are right, Chair. We have the system; it is there and it is operating. We are having to get used to it and deal with the de-bugging. Inevitably, we did a lot of de-bugging on a test basis. However, once you move from a test environment to a live environment, and you are trying to put volumes through the system, then it does put it under strain. We are being a bit slow at the moment with payments. We are, day by day, slowly de-bugging various bits and pieces that get in the way and slow the process down and we hope that, by the end of the month, we should be moving back to our normal speed of payments.**

ydyn nhw?

**Mr Shortridge:** Nid wyf yn meddwl eu bod wedi arafu. Ond i ddifyrru'r Pwyllgor, un peth a ddigwyddodd oedd bod y meddalwedd, dridiau i mewn i'r system newydd, yr wyf yn meddwl, i gyd yn gweithio ond fe ffiwsiodd y cyfrifiadur ei hun. [*Chwerthin.*]

[62] Dafydd Wigley: **Wel, os ydych yn ei gyflwyno ar 1 Ebrill mae problemau'n anochel, mae'n debyg.**

Mr Shortridge: **Am yr ail waith mewn 10 mlynedd, cawsom broblem gyda'n prif-gyfrifiadur, nad oeddem wedi'i rhagweld. Rhoddwyd y trefniadau adfer ar waith ac yr oedd y system yn gweithio eto yn reit gyflym a dweud y gwir, ond nid oeddem wedi rhagweld hynny.**

Mr Pavelin: **Yr wyf yn meddwl eich bod yn iawn, Gadeirydd. Mae'r system gennym, mae yna ac mae'n gweithio. Yr ydym yn gorfod ymgylchwyddo â hi a delio â'r dadfygio. Yn anochel, cafodd llawer o ddadfygio ei wneud ar sail profi. Fodd bynnag, cyn gynted ag y symudwch chi o amgylchedd profi i amgylchedd byw, a'ch bod yn ceisio rhoi swmp o waith drwy'r system, yna mae'n teimlo'r straen. Yr ydym ychydig yn araf gyda thaliadau ar hyn o bryd. O ddydd i ddydd, yr ydym yn raddol yn dadfygio'r gwahanol ddarnau a thameidiau sy'n tarfu ar y broses ac yn ei harafu a gobeithiwn, erbyn diwedd y mis, y byddwn unwaith eto yn gallu gwneud taliadau mor gyflym ag arfer.**

[63] Dafydd Wigley: **Will all features of the new system have been implemented by the end of the month?**

Mr Pavelin: **All of the features that we intend to bring in initially are, effectively, to replace our existing software and facilities and do some improvements. We are aiming, over the next 12 months, to roll out further improvements so that there will be more remote entry of payments. There will be some other elements of improvements in respect of management of grant schemes, we hope, towards the end of the financial year.**

[64] Dafydd Wigley: **Thank you. Janice?**

[65] Janice Gregory: **Thank you, Chair. I hope that I am not on the wrong section of this part of the report in asking this question, which is to Laurie. I asked you a question last year; I do not for a second expect you to remember it. However, it was in relation to payments by the Assembly to certain groups and I know that there was one particular department in which that was overly—the term was overly burdensome, I am sure that you will know what I mean—especially in terms of the issue of cheque rather than bankers automated clearing system payments. The department was the agriculture department. At that time, you said that you had a new campaign to, hopefully, persuade people to accept payments by**

[63] Dafydd Wigley: **A fydd holl nodweddion y system newydd wedi eu rhoi ar waith erbyn diwedd y mis?**

Mr Pavelin: **Diben yr holl nodweddion yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno ar y cychwyn yw disodli ein meddalwedd a'n cyfleusterau presennol, gyda rhai gwelliannau. Dros y 12 mis nesaf, ein nod yw cyflwyno gwelliannau pellach fel bod modd cofnodi mwy o daliadau o bell. Bydd yna hefyd rai elfennau eraill o wella yng nghyd-destun rheoli cynlluniau grant, gobeithiwn, tua diwedd y flwyddyn ariannol.**

[64] Dafydd Wigley: **Diolch. Janice?**

[65] **Janice Gregory:** Diolch, Gadeirydd. Yr wyf yn gobeithio nad wyf yn rhan anghywir yr adroddiad wrth ofyn y cwestiwn hwn, sy'n gwestiwn i Laurie. Gofynnais gwestiwn i chi y llynedd; nid wyf am eiliad yn disgwyl ichi ei gofio. Fodd bynnag, yr oedd yn ymwneud â thaliadau gan y Cynulliad i rai grwpiau a gwn fod yna un adran neilltuol lle'r oedd hynny yn rhy—y term a ddefnyddiwyd oedd rhy feichus, yr wyf yn siŵr eich bod gwybod beth yr wyf yn ei golygu—yn enwedig yn nhermau talu drwy sieciau yn hytrach na system glirio awtomataidd y bancwyr. Yr adran amaethyddiaeth oedd yr adran. Ar y pryd, dywedasoch fod gennych ymgyrch newydd i berswadio pobl, gobeithio, i dderbyn taliadau drwy BACS. Allwch chi ddweud wrthym a yw'r system newydd hon wedi cael unrhyw effaith ar hynny? Ydych chi wedi gallu dweud, 'mae gennym system newydd, a rhaid i chi gael eich talu drwy BACS fel pawb arall'?

**BACS. Can you tell us if this new system has had any impact on that? Have you been able to say, ‘we have a new system, you have to be paid by BACS like everybody else’?**

**Mr Pavelin: The new system does not, of itself, change the difference between cheques and BACS. However, the campaign last year, I think, led to 3,000 additional farmers being paid by BACS as opposed to cheques. We have taken legal advice on whether we can actually require people to receive their payments by BACS, and the advice that we have had so far, which we have shared with the Minister for Finance, Local Government and Communities, is that we need to make a decision later this year on whether we want to switch across to essentially all-BACS payments. Our difficulty in switching across is that we have to collect the BACS details from many thousands of people, and so we decided not to do it as of 1 April. It was going to be an additional problem. However, we are seriously looking at it for later on this year.**

**[66] Dafydd Wigley: These are two separate issues, are they not—the BACS system and the introduction of the new system on 1 April?**

**Mr Pavelin: Yes, indeed.**

**Mr Pavelin: Nid yw'r system newydd, ynddi ei hun, yn newid y gwahaniaeth rhwng sieciau a BACS. Fodd bynnag, credaf i'r ymgyrch y llynedd arwain at dalu 3,000 yn fwy o ffermwyr drwy BACS yn hytrach na sieciau. Yr ydym wedi cymryd cyngor cyfreithiol I ganfod a allwn fynnu bod pobl yn derbyn eu taliadau drwy BACS, a'r cyngor a gawsom hyd yma, yr ydym wedi'i rannu gyda'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, yw bod angen inni benderfynu yn ddiweddarach eleni a ydym, i bob diben, am wneud yr holl daliadau drwy BACS. Yr anhawster rhag newid yw bod yn rhaid inni gasglu manylion BACS oddi wrth filoedd lawer o bobl, felly penderfynwyd peidio â gwneud hynny o 1 Ebrill ymlaen. Byddai wedi bod yn broblem ychwanegol. Fodd bynnag, yr ydym yn edrych o ddifrif ar wneud hyn yn ddiweddarach eleni.**

**[66] Dafydd Wigley: Mae'r rhain yn ddau fater gwahanol, onid ydynt—y system BACS a chyflwyno'r system newydd ar 1 Ebrill?**

**Mr Pavelin: Ydynt, yn wir.**

[67] Janice Gregory: I did apologise if I was on the wrong part of the report.

[67] Janice Gregory: Ymddiheurais os oeddwn ar ran anghywir yr adroddiad.

[68] Dafydd Wigley: We may return to that at some future date. I think that you wanted to move things on, Janice, with regard to the production of consolidated Assembly accounts?

[68] Dafydd Wigley: Gallwn ddod yn ôl at hynny ryw dro yn y dyfodol. Yr wyf yn meddwl eich bod am symud pethau ymlaen, Janice, o ran cynhyrchu cyfrifon cyfunol i'r Cynulliad?

[69] Janice Gregory: Thank you, Chair. I had misplaced my notes.

[69] Janice Gregory: Diolch, Gadeirydd. Yr oeddwn wedi colli fy nodiadau.

[70] Ann Jones: It was a good supplementary though.

[70] Ann Jones: Yr oedd yn gwestiwn atodol da serch hynny.

[71] Janice Gregory: Thank you. It was in the wrong place, but never mind.

[71] Janice Gregory: Diolch. Yr oedd yn y lle anghywir, ond na phoener.

I am pleased to note, from paragraphs 8.4 to 8.6 on page 19 of the general report, that the Assembly was able to produce its core and consolidated accounts for 2000-01 by the statutory dates. I am certainly pleased to note that you attribute that to the recruitment of additional suitably qualified staff. Wearing another hat from another Committee, I know how difficult it is for us at the moment to fill all our vacancies. Therefore I am pleased with that, and, of course, you pay tribute to the hard work of the officials. However, the Auditor General has recommended that you should aim to speed up the consolidation process by seeking earlier completion of the individual underlying accounts. Can you inform us of what

Yr wyf yn falch o nodi, o baragraffau 8.4 i 8.6 ar dudalen 19 o'r adroddiad cyffredinol, i'r Cynulliad allu cynhyrchu ei gyfrifon craidd a chyfunol am 2000-01 erbyn y dyddiadau statudol. Yr wyf yn sicr yn falch o nodi eich bod yn priodoli hynny i recriwtio staff ychwanegol sydd â chymwysterau addas. A gwisgo het arall o Bwyllgor arall, gwn mor anodd yw hi ar y funud inni lenwi ein swyddi gwag i gyd. Yr wyf wedi fy mhlesio gan hyn felly ac, wrth gwrs, yr ydych yn talu teyrnged i waith caled y swyddogion. Fodd bynnag, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi argymhell y dylech geisio cyflymu'r broses gyfuno drwy geisio cwblhau'r cyfrifon sylfaenol unigol yn gynharach. Allwch chi ddweud wrthym pa fesurau yr ydych yn eu cymryd

**measures you are taking to action this recommendation for the 2001-02 accounts?**

**Mr Shortridge:** Before I do that, Chair, may I use that as a peg myself to pay tribute to the officials who have worked incredibly hard both to prepare these accounts and also—when we come to it—to make the progress on the consolidation of the accounts.

[72] **Dafydd Wigley:** I think that all of us in this Committee would want to be associated with that.

**Mr Shortridge:** In terms of what we are doing to address the time pressure issue, which I acknowledge did exist last year, I actually called a meeting of all the relevant accounting officers on 19 February, to get their agreement to what our timetable should be for the preparation of the accounts for 2001-02. The programme that we have all committed ourselves to is to have all the contributory accounts completed by the end of July, so that the NAO will be in a position to audit them by the end of September. We are then committing ourselves to complete the consolidation during October, so that the consolidated accounts can themselves be audited in time for me to sign them off at the end of November. The other thing that is in our programme is that we have to complete the first dry run of the whole of Government of Wales accounts by 20 December. So we have a clear programme and, as last year, I will be having about monthly meetings with the chief executives concerned in the preparation of these accounts so that I can have a very clear understanding of whether we are to timetable and, if we are not, what the reason is so that, if I can possibly address any problem, I will do so.

[73] **Dafydd Wigley:** Thank you. Janet, you wanted to come in?

[74] **Janet Davies:** Thank you, Chair. Could we turn to the whole of Government accounts, Mr Shortridge? Clearly, it is a very important change in the way Government financing and accounting is conducted. Of course, we are particularly interested—well,

**i roi'r argymhelliad hwn ar waith yng nghyswllt cyfrifon 2001-02?**

**Mr Shortridge:** Cyn imi wneud hynny, Gadeirydd, a gaf i fanteisio ar hynny i dalu teyrnged i'r swyddogion sydd wedi gweithio'n aruthrol o galed i baratoi'r cyfrifon hyn a hefyd—pan ddown at hynny—i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyfuno'r cyfrifon.

[72] **Dafydd Wigley:** Yr wyf yn credu y byddai pawb ohonom yn y Pwyllgor hwn am ategu hynny.

**Mr Shortridge:** O ran beth yr ydym yn ei wneud i roi sylw i fater pwysau amser, a oedd, yr wyf yn cydnabod, yn bodoli y llynedd, galwais gyfarfod o'r holl swyddogion cyfrifo perthnasol ar 19 Chwefror, er mwyn iddynt gytuno ar amserlen briodol inni o ran paratoi cyfrifon 2001-02. Yr ydym oll wedi ymrwymo i raglen sy'n gofyn inni gwblhau'r holl gyfrifon cyfrannol erbyn diwedd Gorffennaf, fel y bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gallu eu harchwilio erbyn diwedd Medi. Yr ydym wedyn yn ymrwymo i gwblhau'r cyfuno yn ystod mis Hydref, fel y gall y cyfrifon cyfunol eu hunain gael eu harchwilio mewn pryd i mi eu llofnodi ddiwedd Tachwedd. Y peth arall sydd yn ein rhaglen yw bod yn rhaid inni gwblhau cyfrifon cyntaf Llywodraeth Cymru gyfan, fel ymarfer, erbyn 20 Rhagfyr. Felly mae gennym raglen glir a, fel y llynedd, byddaf yn cael cyfarfodydd misol gyda'r prif weithredwyr sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon hyn fel fy mod yn deall yn union a ydym yn cadw at yr amserlen ac, os nad ydym, beth yw'r rheswm dros hynny, er mwyn imi allu mynd i'r afael ag unrhyw broblem, os bydd modd gwneud hynny.

[73] **Dafydd Wigley:** Diolch. Janet, yr oeddech am ddweud rhywbeth am hyn?

[74] **Janet Davies:** Diolch, Gadeirydd. Allwn ni droi at gyfrifon y Llywodraeth gyfan, Mr Shortridge? Yn amlwg, mae hyn yn newid pwysig iawn yn y ffordd y caiff gwaith cyllido a chyfrifo y Llywodraeth ei wneud. Wrth gwrs, mae gennym ddiddordeb

only interested—in the whole of Government of Wales accounts. May I just say there how nice it is to call it the Government of Wales accounts rather than the WAG accounts? [*Laughter.*] It is a pleasure to note that, as it appears at the moment, we are actually moving faster than the rest of the United Kingdom on achieving this situation. However, looking at figure 6 on page 20, could you provide us with an update on the progress against the milestone 2 data for 15 March of this year?

**Mr Shortridge:** Yes, we met that milestone, and, just so that the Committee knows, that was essentially to get an opening balance sheet as at April 2001 for the consolidated accounts. I have not actually seen definitively the statistics, but I think, as with milestone 1, we were in quite a small group of what the Treasury would describe as ‘departments’ that did that.

[75] **Janet Davies:** Right, thank you. I know that this is looking forward, but do you see any problems over the next 18 months in the Assembly being able to meet milestones 3 and 4? That is, the dates for milestones 3 and 4.

**Mr Shortridge:** I am sure that there will be lots of problems. We are—as I think the report alludes to in, possibly, part 2—hoping that actually we will be able satisfactorily to achieve milestone 4 in effect by 20 December of this year, but that will obviously be dependent on not just our producing the accounts, but the Auditor General being satisfied that we have consolidated them sufficiently to his satisfaction. To do it will be very challenging, but as of now, we are certainly on target to achieve milestone 3. Mr Pavelin may want to give you some further background on that.

**Mr Pavelin:** I think the fact that we have been able to produce a consolidated opening balance sheet, which the National Audit Office has looked at and felt comfortable with, proves that our sponsored bodies do have an understanding of what is required of them. They have an understanding of the way in which we require the information to be provided to us, and provided that they can

neilltuol—wel, dyma’n hunig ddiddordeb—yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru cyfan. A gaf fi ddweud yma mor braf yw eu galw yn gyfrifon Llywodraeth Cymru yn hytrach na chyfrifon WAG? [*Chwerthin.*] Mae’n bleser nodi ein bod, fel y mae’n ymddangos ar y funud, yn symud yn gyflymach na gweddill y Deyrnas Unedig tuag at gyflawni hyn. Fodd bynnag, gan edrych ar ffigur 6 ar dudalen 20, allech chi roi gwybodaeth ddiweddar i ni ar y cynnydd o ran data carreg filltir 2 ar gyfer 15 Mawrth eleni?

**Mr Shortridge:** Gallaf, cafodd y carreg filltir honno ei chyflawni, ac, er gwybodaeth i’r Pwyllgor yn unig, y nod oedd cynhyrchu mantolen agoriadol yn Ebrill 2001 ar gyfer y cyfrifon cyfunol. Nid wyf wedi gweld yr ystadegau swyddogol, ond credaf, megis gyda charreg filltir 1, ein bod mewn grŵp cymharol fach o’r hyn y byddai’r Trysorlys yn ei ddisgrifio fel ‘adrannau’ a wnaeth hynny.

[75] **Janet Davies:** Iawn, diolch. Gwn mai edrych ymlaen yw hyn, ond a ydych chi’n gweld unrhyw broblemau dros y 18 mis nesaf a fyddai’n llesteirio’r Cynulliad rhag gallu cyflawni cerrig milltir 3 a 4? Hynny yw, y dyddiadau ar gyfer cerrig milltir 3 a 4.

**Mr Shortridge:** Yr wyf yn siŵr y bydd yna lawer o broblemau. Yr ydym—fel y mae’r adroddiad yn cyfeirio ato yn, o bosibl, rhan 2—yn gobeithio y byddwn yn wir yn gallu cyflawni carreg filltir 4 yn foddhaol erbyn 20 Rhagfyr eleni, ond yn amlwg bydd hynny’n dibynnu nid yn unig ar i ni gynhyrchu’r cyfrifon, ond ar i’r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon ein bod wedi’u cyfuno’n ddigonol i’w fodloni. Bydd gwneud hynny yn anodd iawn, ond ar hyn o bryd mae cyflawni carreg filltir 3 ar amser yn sicr o fewn ein gallu. Efallai y bydd Mr Pavelin am roi rhagor o gefndir i chi ar hynny.

**Mr Pavelin:** Yr wyf yn meddwl bod y ffaith inni allu cynhyrchu mantolen agoriadol gyfunol, y mae’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi edrych arni ac mae’n hapus â hi, yn profi bod ein cyrff noddedig yn deall yr hyn sy’n ofynnol ganddynt. Maent yn deall ym mha ffurf y mae’n ofynnol iddynt ddarparu’r wybodaeth inni, a chyhyd â’u bod yn gallu cynhyrchu eu cyfrifon erbyn y

produce their accounts to the appropriate deadline for this coming year, I do not see any significant difficulty in us being able to produce a set of accounts to meet the milestone 3 deadline.

**Mr Shortridge:** Just so that there is no misunderstanding, that would still not include the local government element of the account about which, Chair, you asked last year. There has been some limited progress on that, which we can report if you would like.

[76] **Dafydd Wigley:** I think that possibly that is something that we ought to come back to in due course, because it does go beyond the direct remit, does it not? However, it is an area of some interest, and I suspect that we will want to come back to it. I now want to move on to the resource-based budgeting. Val?

[77] **Val Lloyd:** Thank you, Chair. In relation to paragraph 8.14, could Mr Shortridge please provide the Committee with an update on progress on the introduction of resource-based budgeting?

**Mr Shortridge:** Yes. I will invite Mr Richards to give you a fuller response, but, as far as I am concerned, we very satisfactorily introduced resource-based budgeting in last year's budget round. As members of Committees, you will be familiar with the way in which that process worked. I am not aware of any significant teething problems that arose from the introduction of resource budgeting, and, indeed, that was one area where we had a substantial training programme across the whole of the Assembly to ensure that it was implemented satisfactorily.

**Mr Richards:** I think that the only thing that I would add is that, this year, we are running on a resource budgeting basis, having gone through the budgeting round. It was a big training exercise last year. We were certainly available to train Assembly Members and we still are at any time happy to run seminars or provide anything that would be helpful. As we go through in the second round, the next thing is to start using it. It was a huge push to get the system in place, but we now need to

dyddiad cau priodol yn y flwyddyn sydd i ddod, ni welaf unrhyw anhawster mawr rhag inni allu cynhyrchu set o gyfrifon i gwrdd â dyddiad terfyn carreg filltir 3.

**Mr Shortridge:** I wneud yn siŵr nad oes unrhyw gamddealltwriaeth, ni fyddai hynny dal yn cynnwys elfen y cyfrif sy'n ymwneud â llywodraeth leol. Bu ichi holi ynglŷn â hynny y llynedd, Gadeirydd. Gwnaed rhywfaint o gynnydd cyfyngedig ar hynny, a gallwn roi adroddiad ar hynny os mynnwch.

[76] **Dafydd Wigley:** Tybiaf efallai fod hynny yn rhywbeth y dylem ddod yn ôl ato maes o law, oherwydd mae'n mynd y tu hwnt i'r cylch gwaith uniongyrchol, onid yw? Fodd bynnag, mae'n faes sydd o ddiddordeb, ac yr wyf yn siŵr y byddwn am ddod yn ôl ato. Hoffwn yn awr symud at gyllidebu ar sail adnoddau. Val?

[77] **Val Lloyd:** Diolch, Gadeirydd. Gan gyfeirio at baragraff 8.14, a allai Mr Shortridge roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor os gwelwch yn dda ar hynt y gwaith o gyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau?

**Mr Shortridge:** Gallaf. Fe wahoddaf Mr Richards i roi ymateb llawnach i chi, ond, o'm rhan i, cafodd cyllidebu ar sail adnoddau ei gyflwyno'n foddhaol iawn yng nghylch y gyllideb y llynedd. Yr ydych, fel aelodau Pwyllgorau, yn gyfarwydd â'r ffordd y gweithia'r broses honno. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw broblemau o bwys a gododd wrth ddechrau cyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau, ac, yn wir, yr oedd hwnnw yn un maes lle cawsom raglen hyfforddi sylweddol ar draws y Cynulliad cyfan i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n foddhaol.

**Mr Richards:** Yr wyf yn meddwl mai'r unig beth y byddwn am ei ychwanegu yw ein bod, eleni, yn gweithredu ar sail cyllidebu yn ôl adnoddau, gan ein bod wedi mynd drwy gylch y gyllideb. Yr oedd yn ymarfer hyfforddi mawr y llynedd. Yr oeddem yn sicr ar gael i hyfforddi Aelodau o'r Cynulliad ac yr ydym yn dal yn barod ar unrhyw adeg i gynnal seminarau neu ddarparu unrhyw beth a fyddai o fudd. Wrth inni fynd ymlaen yn yr ail gylch, y peth nesaf yw dechrau ei

start getting benefits out of it in the future.

[78] **Val Lloyd:** I am very pleased, Chair, to hear that about training, both in that it was offered to Members and also that it helped the introduction of this. It is very pleasing to hear. Could you elaborate on the anticipated benefits of resource-based budgeting—briefly, as I am sure it could take a long time?

**Mr Richards:** I think that the benefits will come over time. There are two kinds of benefits. At the more micro level that we find within the Assembly itself and within divisions, there is much more interest in commitments and creditors and the use of the money. It is making people look further ahead in terms of what they are signing up to. The bigger benefits—the macro benefits about how we use our capital stock in Wales and what that means about long-term capital investment and how the way that we are spending money relates to objectives—I think will come over a longer time, particularly when we have a series of accounts and budgets that we can compare. We will be able to see over time what is happening to the capital stock in Wales.

[79] **Val Lloyd:** I have one final question, if I may, Chair. Do you believe that those benefits are being realised? I know that it is early days.

**Mr Richards:** Not significantly. It is happening on the ground with Assembly staff who are micro-managing these grants schemes, and we can see that. In terms of the big picture, no. It is early days. I think that any of the Whitehall departments would give much the same answer.

[80] **Val Lloyd:** Thank you very much.

[81] **Dafydd Wigley:** Have any other colleagues any other points? No? Then, before winding up this session, I would like to say that all our colleagues on the

ddefnyddio. Bu'n rhaid wrth hwb enfawr i sefydlu'r system, ond bellach mae angen inni ddechrau cael budd ohoni yn y dyfodol.

[78] **Val Lloyd:** Yr wyf yn falch iawn, Gadeirydd, o glywed hynny am yr hyfforddiant, yn yr ystyr ei fod wedi'i gynnig i Aelodau a hefyd iddo fod yn help gyda'r cyflwyno. Braff yw clywed hynny. A allwch chi ymhelaethu ar y manteision a ddisgwylir o gyllidebu ar sail adnoddau—yn fyr, oherwydd yr wyf yn siŵr y gallai gymryd amser maith?

**Mr Richards:** Yr wyf yn meddwl y daw'r manteision dros amser. Mae yna ddau fath o fantais. Ar y lefel fwy micro a welwn yn y Cynulliad ei hun ac mewn is-adrannau, mae yna lawer mwy o ddiddordeb mewn ymrwymadau a chredydwy'r ac yn y defnydd o arian. Mae'n gwneud i bobl edrych ymhellach ymlaen o ran beth y maent yn ymrwymo iddo. Credaf y daw'r manteision mwy—y manteision macro o ran sut yr ydym yn defnyddio ein stoc gyfalaf yng Nghymru a beth yw arwyddocâd hynny o ran buddsoddi cyfalaf yn y tymor hir a sut mae'r ffordd yr ydym yn gwario arian yn gysylltiedig ag amcanion—credaf y daw hynny i'r amlwg dros gyfnod hwy, yn enwedig pan fo gennym gyfres o gyfrifon a chyllidebau y gallwn eu cymharu. Byddwn yn gallu gweld dros amser beth sy'n digwydd i'r stoc gyfalaf yng Nghymru.

[79] **Val Lloyd:** Mae gennyf un cwestiwn olaf, os caf fi, Gadeirydd. Ydych chi'n credu bod y manteision hynny yn cael eu gwireddu? Gwn ei bod yn ddyddiau cynnar arnom.

**Mr Richards:** Ddim yn sylweddol. Mae'n digwydd yn y maes gyda staff y Cynulliad sy'n microreoli'r cynlluniau grant hyn, a gallwn weld hynny. O ran y darlun eang, nac ydy. Mae'n ddyddiau cynnar. Credaf y byddai unrhyw un o adrannau Whitehall yn rhoi ateb digon tebyg.

[80] **Val Lloyd:** Diolch yn fawr iawn.

[81] **Dafydd Wigley:** Oes gan unrhyw gyd-aelodau eraill unrhyw bwyntiau? Nac oes? Yna, cyn dod â'r sesiwn hwn i ben, hoffwn ddweud bod ein cyd-aelodau i gyd ar y

Committee appreciate the enormous pressure under which you and your staff have been working, given the fundamental changes that have been taking place. It is quite a challenge to get the National Assembly itself up and running, but to change to resource accounting, and bring in the whole of Government of Wales accounts concept in parallel, is quite a challenge. I would be grateful if you pass on to them our appreciation of the work that has been done. We look forward in due course to seeing the benefits from it.

**Sir John Bourn:** I would just like to say, as the external auditor of the United Kingdom, that the quality of the work done by the officials in the Assembly compares very well with the United Kingdom performance. As the external auditor of the Assembly, I think that it is right to make that point about the quality of the work done in Wales.

[82] **Dafydd Wigley:** That is greatly appreciated.

**Mr Shortridge:** Chair, may I just say that I am grateful for your and the Auditor General's comments. I am very lucky to have highly qualified and committed staff working for me in a complex and difficult area. I am grateful both to you for what you have said and to them for all that they have done.

[83] **Dafydd Wigley:** I thank all the witnesses for their full and helpful answers to our questions. As Janet always said at the end of a session, a draft transcript will be sent to you so that you can check it for factual accuracy before it is published as part of the minutes. When the Committee publishes the report, the transcript will be included as an annex. Thank you for your contributions and, on the one or two points on which you mentioned that you would come back to us, we will be glad to have a note on them. Thank you very much indeed.

Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r pwysau enfawr yr ydych chi a'ch staff wedi bod yn gweithio oddi tano, o gofio'r newidiadau sylfaenol a fu'n digwydd. Mae'n gryn her cael y Cynulliad Cenedlaethol ei hun ar ei draed, ond mae newid i gyfrifo ar sail adnoddau, a chyflwyno'r cysyniad o gyfrifon Llywodraeth Cymru gyfan law yn llaw â hynny, yn gryn her. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cyfleu ein gwerthfawrogiad o'r gwaith sydd wedi'i wneud. Edrychwn ymlaen at weld y manteision a ddaw ohono maes o law.

**Sir John Bourn:** Fe hoffwn i gael dweud, fel archwilydd allanol y Deyrnas Unedig, fod ansawdd y gwaith a wneir gan swyddogion y Cynulliad yn cymharu'n dda iawn â pherfformiad y Deyrnas Unedig. Fel archwilydd allanol y Cynulliad, credaf ei bod yn briodol gwneud y pwynt hwnnw ynglŷn ag ansawdd y gwaith a wneir yng Nghymru.

[82] **Dafydd Wigley:** Gwerthfawrogir hynny yn fawr.

**Mr Shortridge:** Gadeirydd, a gaf fi ddweud fy mod yn ddiolchgar am eich sylwadau chi a'r Archwilydd Cyffredinol. Yr wyf yn lwcus i gael staff mor gymwys ac mor ymroddgar yn gweithio imi mewn maes cymhleth ac anodd. Yr wyf yn ddiolchgar i'r ddau ohonoch am yr hyn yr ydych wedi'i ddweud ac i bob un ohonynt hwy am bopeth y maent wedi'i wneud.

[83] **Dafydd Wigley:** Diolchaf i'r tystion i gyd am eu hatebion llawn a defnyddiol i'n cwestiynau. Fel yr arferai Janet ddweud bob amser ar ddiwedd sesiwn, bydd trawsgrifiad drafft yn cael ei anfon atoch ichi gael cadarnhau ei gywirdeb ffeithiol cyn iddo gael ei gyhoeddi fel rhan o'r cofnodion. Pan gyhoedda'r Pwyllgor yr adroddiad, caiff y trawsgrifiad ei gynnwys fel atodiad. Diolch ichi am eich cyfraniadau ac, ynglŷn â'r ambell bwynt lle dywedasoeh y byddech yn dod yn ôl atom, byddwn yn falch o gael nodyn arnynt. Diolch yn fawr iawn.

*Daeth y sesiwn cymryd tystiolaeth i ben am 4.49 p.m.  
The evidence-taking session ended at 4.49 p.m.*

*Letter from Mr David Richards, 17 April 2002*

**David Richards**  
**Principal Finance Officer**

Mr Howell Rees  
Clerk  
National Assembly Audit Committee  
Cardiff Bay  
CARDIFF  
CF99 1NA

17 April 2002

Dear Howell

**EUROPEAN STRUCTURAL FUNDS (ESF)**

Jon Shortridge, Laurie Pavelin, the head of Financial Accountability Division, and I will be giving evidence to the Audit Committee on Thursday afternoon in respect of the Auditor General for Wales' General Report on his financial audit work for 2000-01.

One aspect of the Report that the Committee will I am sure wish to discuss is the Auditor General's summary review of the operation of European Structural Funds set out in Part 5. I thought it would be helpful, in advance of Committee, to provide some supplementary information on one aspect of this where the position has changed since the preparation of the Auditor General's report.

In paragraph 5.11 the Auditor General noted that all projects in receipt of European Funding, with the exception of ESF grant for less than £20,000, are required to submit audit certificates to WEFO in support of their annual claims for grant. All projects are subject to a final audit certificate which, as the Auditor General notes, must be submitted before payment of the final grant instalment.

One recent development has been a temporary moratorium on the submission of annual audit certificates for ESF projects. They were not a feature of pre 1999 ESF projects and although they remain a requirement of other European Community Funds in England and Wales, our understanding is that they are still not a requirement of many other Member States. The moratorium was introduced in March across England and Wales and will extend to June 2002. It does not impact on the requirement to submit a final audited certificate in respect of every grant funded project; both under pre 1999 and post 2000 programmes.

The ESF grant rules are common to both Wales and England. Although there is scope for discrete rules relating to Wales any move down this road will have to be considered very carefully.

The moratorium will give a breathing space to assess the need for and value of annual certificates for projects that span financial years; consider the precise format they should take if the decision is to retain them; and ways in which the related guidance can be framed in as clear and user-friendly way as possible. We will keep closely in touch with the National Audit Office on this.

I hope this is helpful.

Yours sincerely

D T RICHARDS

## THE AUDIT COMMITTEE

The National Assembly's Audit Committee ensures that proper and thorough scrutiny is given to the Assembly's expenditure. In broad terms, its role is to examine the reports on the accounts of the Assembly and other public bodies prepared by the Auditor General for Wales; and to consider reports by the Auditor General for Wales on examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which the Assembly has used its resources in discharging its functions. The responsibilities of the Audit Committee are set out in detail in Standing Order 12.

The membership of the Committee as appointed on 21<sup>st</sup> March 2002:

Dafydd Wigley (Plaid Cymru) - Chair  
Alan Cairns (Conservative)  
Janet Davies (Plaid Cymru)  
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)  
Alison Halford (Labour)  
Ann Jones (Labour)  
Val Lloyd (Labour)  
Janice Gregory (Labour)  
Dafydd Wigley (Plaid Cymru)  
Eleanor Burnham (Liberal Democrat)

Further information about the Committee can be obtained from:

Howell Rees  
Clerk to the Audit Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
CF99 1NA  
Tel: 02920 898155  
Email: [Audit.comm@wales.gsi.gov.uk](mailto:Audit.comm@wales.gsi.gov.uk)